


# Tiwbiau tenau

## Glanhau tiwbiau tenau a chromenni

- 1 Tynnwch y tiwb tenau o'ch dyfais glywed cyn ei glanhau, trwy ei ddadsgriwio yn wrthglocwedd.
- 2 Weipiwch y tiwb tenau a'r gromen gan ddefnyddio cadach llaith.
- 3 Er mwyn cael gwared ar leithder ac unrhyw ddarnau bach sydd yn y tiwb tenau, gwthiwch y ffon lanhau ddu trwy'r tiwb gan ddechrau yn y pen sydd gyferbyn â'r gromen.



**i** Dylai systemau tiwb tenau a chromen gael eu disodli pan fydd y rhannau'n mynd yn anhyblyg neu'n frau neu os ydyn nhw wedi plygu.

## Disodli'r tiwbiau tenau

- 1 Tynnwch y tiwb tenau o'r ddyfais glyw, trwy ei ddadsgriwio yn wrthglocwedd.
- 2 Atodwch y tiwb tenau newydd trwy ei sgriwio'n glocwedd.



## Disodli cromenni

Argymhellir mai eich gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n newid y gromen, gan y gall gosod cromen newydd yn anghywir achosi i'r gromen gwmpo allan o'r glust.

Manylion cyswllt awdiolegydd: